**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: RE-221-2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

26 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

**Canlyniad y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, cynhaliwyd ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 10 Mai 2023. Yn Weinidog arweiniol ar gyfer y Grŵp hwn, gofynnais i'r Gweinidog Newid Hinsawdd gadeirio'r cyfarfod gan fod eitemau'r agenda yn dod o dan ei phortffolio hi. Yn wreiddiol, roedd y cyfarfod hwn wedi'i drefnu at 10 Hydref 2022 ond fe'i gohiriwyd ar gais Llywodraeth y DU.

Nid oedd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod a rhannodd hi ei hymddiheuriadau. Cynrychiolwyd Llywodraeth Cymru gan: Emma Williams, y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio; Sarah Rhodes, y Pennaeth Atal Digartrefedd; Andrea Street, y Dirprwy Gyfarwyddwr Safonau a Rheoleiddio Diogelwch Tai; a Jo Larner, Pennaeth y Rhaglen Diogelwch Adeiladau.

Ar ran Llywodraeth yr Alban, roedd Paul McLennan ASA, y Gweinidog Tai yn bresennol yn y cyfarfod, ac yn absenoldeb y Gweinidog Newid Hinsawdd, cytunodd i gadeirio'r cyfarfod. Cynrychiolwyd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gan Mark O'Donnell, y Dirprwy Ysgrifennydd Tai, Adfywio Trefol a Llywodraeth Leol; Paul Price, y Cyfarwyddwr Polisi Tai Cymdeithasol a Kieran Devlin, y Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyflenwad Tai. O Lywodraeth y DU, roedd Felicity Buchan AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Tai a Chysgu Allan ac ar gyfer yr Undeb a'r Cyfansoddiad yn bresennol er nid oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem diogelwch adeiladau yn sgil ei chyswllt etholaethol â Grenfell. Hefyd yn bresennol yr oedd Lee Rowley AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Llywodraeth Leol a Diogelwch Adeiladau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Digartrefedd oedd yr eitem o bwys ar yr agenda a thrafododd y grŵp y blaenoriaethau a’r heriau cyffredin y mae pob llywodraeth yn eu hwynebu o ran mynd i’r afael â digartrefedd. Roedd gwneud i’r Sector Rhentu Preifat weithio er mwyn atal digartrefedd a blaenoriaethu mesurau atal wedi’u targedu yn feysydd ffocws allweddol. Er, yng nghyd-destun digartrefedd, trafodwyd bod effeithiau costau byw, y rhyfel yn Wcráin ac argyfyngau dyngarol eraill yn bryderon a rennir. Mae heriau cyffredin hefyd o ran cyfraddau Lwfans Tai Lleol, cadernid gweithluoedd a nifer y bobl sydd mewn llety dros dro. Trafodwyd hefyd y cynnydd sydd wedi’i wneud ar faterion diogelwch adeiladau ers cyfarfod cychwynnol y Grŵp Rhyngweinidogol. Cydnabuwyd y berthynas waith gadarnhaol sydd rhwng swyddogion ym meysydd diogelwch adeiladau a digartrefedd a chytunwyd i’r cydweithio ar y lefel hon barhau.

Cytunodd y grŵp y byddai Llywodraeth yr Alban yn cynnal y cyfarfod nesaf sy’n debygol o gael ei drefnu at yr hydref. Bydd swyddogion yn cydweithio yn awr i nodi dyddiad penodol ac eitemau addas ar gyfer yr agenda.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol